**Cyd-gyfarfod y Cynghorau**

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd am 10.00am ddydd Iau 27 Ionawr 2022 drwy Zoom

Yn bresennol:

Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd)
Tony Ball
Pam Berry
Andrew Curl
Siwan Davies
Tania Davies
Margaret Evans
Eifion Griffiths
Yr Athro Medwin Hughes
Uzo Iwobi
Dr Conny Matera-Rogers
Rowland Jones
Arwel Ellis Owen
Matthew Peake
Liam Powell
Victoria Provis
Dr Stuart Robb
Geraint Roberts
Nigel Roberts
Emlyn Schiavone
Dr Liz Siberry
Maria Stedman
Dr Kerry Tudor

Hefyd yn bresennol:

Sarah Clark, Clerc y Cyngor
Andrew Cornish, Pennaeth Coleg Sir Gâr/Ceredigion
James Barrow
Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor
Yr Athro Catrin Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd)
Shône Hughes, Pennaeth Staff
Steve Baldwin, Cyfarwyddwr Adnoddau a Chynllunio Busnes
Gavin Bessant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol
Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol
Catrin Beard (Cyfieithydd)
Margaret Williams (Ysgrifennydd)

Cydnabu'r aelodau farwolaeth Mr Lyn Williams gan estyn eu cydymdeimlad i Mrs Deris Williams.  Safodd yr aelodau fel arwydd o barch.

| Rhif y cofnod | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 22.01 Ymddiheuriadau am absenoldeb | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Justin Albert, Vanessa Liverpool a Deris Williams. | |
| 22.02 Datganiadau o fuddiannau | DERBYNIODD y Cynghorau y Datganiadau o fuddiannau fel y'i nodir yn adroddiad y Clerc (JCO131). | |
| 22.03 Adroddiad y Cadeirydd | DERBYNIODD y Cynghorau ddiweddariad llafar gan y Cadeirydd.<br><br>Nododd y Cadeirydd ei fod wedi cwblhau ei sesiynau 1:1 gydag aelodau a diolchodd iddynt am eu cydweithrediad. | |
| 22.04 Adroddiad yr Is-Ganghellor | YSTYRIODD y Cynghorau adroddiad yr Is-Ganghellor (JCO132).<br><br>Wrth gyflwyno'r adroddiad, cyfeiriodd yr Is-Ganghellor at y materion canlynol:<br><br><u>Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)</u><br>Roedd y broses seneddol wedi dechrau o ran Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) a rhagwelwyd y byddai gwelliannau'n cael eu gwneud i'r drafft presennol. Roedd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wedi cadarnhau y byddai CCAUC yn parhau tan 2024 tra'n aros i'r Comisiwn newydd gael ei sefydlu.<br><br><u>Campws Llundain</u><br>Roedd y Drindod Dewi Sant yn y broses o benderfynu'n derfynol ar y lleoliad newydd ar gyfer ei champws yn Llundain. Nid oedd y safle a nodwyd i ddechrau ar gael ac ymchwiliwyd i safle newydd, gydag ymweliad gan y Cadeirydd a Chadeirydd ESSC yn gynharach yr wythnos honno. Roedd swyddogion bellach yn gweithio i sicrhau rhentu'r eiddo ar brydles.<br><br><u>Cyhoeddiadau Astudiaethau Cymru</u> | |

| Rhif y cofnod | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | Roedd CCAUC yn ymgynghori ar y trefniadau ariannu ar gyfer cyhoeddiadau Astudiaethau Cymru, gyda'r cyllid ar hyn o bryd yn cael ei ddosbarthu i'r SAU drwy gyllid QR. Roedd CCAUC yn cynnig y dylid dychwelyd yr arian i Wasg Prifysgol Cymru i'w reoli, gyda mwy o oruchwyliaeth a monitro gan CCAUC.<br><br>Arolwg JISC ynghylch deall y profiad digidol 0}<br>Roedd canlyniadau arolwg JISC ynghylch deall y profiad digidol wedi'u cyhoeddi. Yn y Drindod Dewi Sant, canfu'r arolwg fod 77% o fyfyrwyr o'r farn fod eu profiad o ddysgu ar-lein yn gadarnhaol, gyda 36% yn ei ddisgrifio'n 'dda'; disgrifiodd 32% y profiad yn 'rhagorol', a 9% yn dweud ei fod 'y gorau y gellid ei ddychmygu'. Datgelodd yr arolwg hefyd fod 73% yn teimlo'n gadarnhaol am y gefnogaeth a gynigir gan y Drindod Dewi Sant i alluogi myfyrwyr i ddysgu ar-lein.<br><br>SDA<br>Roedd y Drindod Dewi Sant wedi derbyn y canlyniad terfynol gan SDA ac yn bwrw ymlaen â'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad.<br><br>Dathliadau'r Daucanmlwyddiant<br>Cyflwynodd yr Is-Ganghellor raglen y digwyddiadau sydd i'w cynnal. | |
| 22.05<br>Sefydlu fframwaith cydffederal | Mae'r eitem hon dan GYFYNGIADAU ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod. | |
| 22.06<br>Integreiddio PC a PCYDDS: diweddariad ar y cynllun gweithredol | DERBYNIODD y Cynghorau ddiweddariad ar y cynllun gweithredol o ran integreiddio PC a PCYDDS (JCO134).<br><br>Cyfeiriodd y Clerc at y cerrig milltir allweddol i'r cynllun, ac roedd llawer ohonynt wedi'u cwblhau. Roedd y cynnydd ers y cyflwyniad diwethaf yn ymwneud yn bennaf ag integreiddio systemau TG. Dywedodd y Clerc, er y datblygwyd cynghrair gydffederal, fod y rhestr wedi'i chydgrynhoi o gerrig milltir a gyflawnwyd yn annhebygol o newid yn ei ffurf bresennol tan yn agosach at 2027 ac felly argymhellwyd y dylid cyflwyno'r cynllun bob dwy flynedd yn hytrach na bob blwyddyn. | Clerc i ddiwygio'r cynllun gwaith |

| Rhif y cofnod | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | CYTUNODD y Cynghorau i newid i gynnal adolygiad bob dwy flynedd, gyda'r diweddariad nesaf yn cael ei gyflwyno yn 2024. | |
| 22.07<br>Cofnodion 25 Tachwedd 2021 | CYMERADWYODD y Cynghorau Gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2021 (UWC135). | |
| 22.08<br>Cofnodion cyfyngedig 25 Tachwedd 2021 | CYMERADWYODD y Cynghorau Gofnodion Cyfyngedig y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2021 (JCO135). | |
| 22.09<br>Datganiad ar Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl | Cymeradwyodd y Cynghorau Ddatganiad Blynyddol y Grŵp ar Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl ar gyfer 2020/21 (JCO136).<br><br>Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol y byddai'r datganiad yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol. Roedd gan y Brifysgol reolaethau da ar waith gyda thîm canolog a chymwysedig i graffu a rheoli risgiau'r gadwyn gyflenwi mewn perthynas â chaethwasiaeth a masnachu pobl. Gofynnwyd hefyd i gontractwyr a chyflenwyr gadarnhau eu bod yn cydymffurfio.<br><br>Nododd Cadeirydd CSG y byddai'r datganiad yn cael ei gyflwyno i Fwrdd CSG i'w gymeradwyo ym mis Mawrth 2022. | |
| 22.10<br>Iechyd a Diogelwch | DERBYNIODD y Cynghorau yr adroddiad Iechyd a Diogelwch (JCO137). | |
| 22.11<br>Pwyllgor Taliadau | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad y Pwyllgor Taliadau a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2021 (JCO138). | |
| 22.12<br>Adroddiad blynyddol y Pwyllgor Taliadau | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad blynyddol y Pwyllgor Taliadau (JCO138). | |
| 22.13<br>Datganiadau o Fuddiannau | Ni nodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau ychwanegol. | |
| 22.14 | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 31 Mawrth 2022 ar gampws Llundain. | |

| Rhif y cofnod | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf | Hysbysodd y Clerc yr aelodau y byddai gwybodaeth am y trefniadau'n cael eu dosbarthu i'r aelodau yn fuan. | |
| | | |

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45